**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Zoom, ar ddydd Mercher, Mawrth 26ain, 2025 am 7.05 yh**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol** | | | |
| **Cynghorwyr** | J. Tandy<br>D. Hopkins<br>P. H. Roberts | E. W. Nicholas,<br>C. R. Thomas | Mrs A. J. Evans<br>R. Barnes |
| **Yn mynychu arlein** | D. Thomas | K. D. L. Davies | |
| **Ymddiheuriadau** | Dim | | |

**CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ODDIWRTH YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL I'W HYSTYRIED YNG NGHYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO Y CYNGOR, A GYNHALIWYD AR FAWRTH 26ain, 2025, GAN WEITHREDU GYDAG AWDURDOD LLAWN.**

**684.**

**Trafodaeth ynghylch y ceisiadau cynllunio canlynol:**

Ystyriaethau cynllunio i'w HYSTYRIED ym mis Mawrth:

**Cais Cynllunio rhif PL/08971**

- Tir ger Meirath, Heol Derwydd, Rhydaman, SA18 2LX
- Golwng Amodau 11 ac 13 o PL/05009 (llwybr troed 2.0 fetr o led, a Chynllun Dylunio'r Tirwedd)

**Sylwadau; Dim sylwadau**.

**Cais Cynllunio rhif PL/09006**

- Cyn safle Gwerthu Ceir, 124 Heol Rhydaman, Llandybïe, Rhydaman, SA18 2JY
- 2 dŷ preswyl arfaethedig

**Sylwadau;** Wedi iddynt arolygu cynllun y safle roedd aelodau'r pwyllgor am wneud y sylw, ac am ofyn bod ystyriaeth yn cael ei roi i alinio'r tai newydd fel eu bod yn unol ac mewn res â'r eiddo cyfagos yn 116 ac 124 Heol Rhydaman. Roedd y pwyllgor o'r farn bod hyn yn ystyriaeth allweddol fel na fydd effaith andwyol ar y goleuni sy'n cyrraedd y tai preswyl cyfagos.

**Cais Cynllunio rhif PL/08990**

- *Meadow View House*, 73A Heol Hendre, Capel Hendre, Rhydaman, SA18 3LE
- Gollwng Amod 12 o PL/06708 (Ymchwiliad Tir)

**Sylwadau; Dim sylwadau**.

**Cais Cynllunio rhif PL/09051**

- Tir ger *Penybanc Car Sales*, 96 Heol Penybanc, Rhydaman, SA18 3QS
- Newid defnydd o'r tir er mwyn hyrwyddo estyniad i'r garej presennol (bydd y tir yn cael ei ddefnyddio i storio ac arddangos cerbydau modur ar werth).

**Sylwadau; Dim sylwadau**.

**Cais Cynllunio rhif PL/09048**

- Llain 5, Stâd Ddiwydiannol Capel Hendre, Rhydaman, SA18 3SJ
- Codi 1 adeilad at ddefnydd diwydiannol cyffredinol (Dosbarth Defnydd B2) ac iard, cyfleusterau parcio a gwaith draenio cysylltiedig.

**Sylwadau; Dim sylwadau**.

**Cais Cynllunio rhif PL/09072**

- *Brooklands*, Heol Penygroes, Blaenau, Rhydaman, SA18 3EQ
- Estyniad i gefnlun y llawr daear, codi'r to a darparu cyfleusterau byw ar y llawr cyntaf, ynghyd â ffenestri dormer.

**Sylwadau; Dim sylwadau**.

**Cais Cynllunio rhif PL/09050**

- Cilyrychen, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3JZ
- Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer y defnydd arfaethedig, sef codi to ffrâm porth i orchuddio ardal fwydo.

**Sylwadau; Dim sylwadau**.

**685.** Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.26 yh